# BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY YSBRYDOLEDIG

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

## TROSOLWG

Mae dysgwyr yn dod i wybod am yr Eisteddfod Genedlaethol, yr Urdd a'u hanes. Maen nhw'n edrych yn agosach ar Eisteddfod ddadleuol Corwen ac yn ystyried data'r cyfrifiad cyn datblygu arolwg i asesu siaradwyr Cymraeg yn y gymuned. Mae dysgwyr yn edrych ar y mathau o sgiliau y mae pobl yn eu harddangos yn yr ardal leol a'r rhai a grybwyllir yn y Cwricwlwm i Gymru. Maen nhw'n canolbwyntio ar sgiliau mathemateg, yn cysylltu'r rhain â Carol Vorderman a'i gwaith, ac yna'n mynd ymlaen i ddyfeisio gêm fathemateg ar gyfer dysgwyr iau, gan ddefnyddio ysbrydoliaeth o'r awyr agored.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dulliau o gymryd ffotograffau, e.e. tabledi, camerâu, ffonau clyfar, ac ati.
Defnyddiau ar gyfer gwneud gêm fathemateg, e.e. cardbord, papur, glud, ac ati.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# DIGWYDDIADAU YSBRYDOLEDIG

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n dysgu am yr Eisteddfod Genedlaethol, yr Urdd a'u hanes, yn y dasg hon. Byddant hefyd yn datblygu arolwg i edrych ar siaradwyr Cymraeg yn y gymuned.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol am yr Eisteddfod Genedlaethol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r 'Eisteddfod Genedlaethol'? Sut ydych chi'n gwybod?
- Beth sy'n digwydd yn yr 'Eisteddfod Genedlaethol'? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ble a phryd mae'n cael ei chynnal? Pam?
- A yw erioed wedi cael ei chynnal yn agos at ble rydych chi'n byw? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pwy wyddoch chi sydd wedi bod i'r 'Eisteddfod Genedlaethol'? Pam yr aethon nhw?

## Sgrîn 4

Ar y sgrîn hon, darperir gwybodaeth am yr Eisteddfod Genedlaethol megis sefydliad arbennig ac ysbrydoledig.

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr, er mai nod yr Eisteddfod yw cynrychioli amrywiaeth a thraddodiadau'r Gymru fodern, mae ei gwreiddiau'n ddwfn yn hanes y wlad.

Dangoswch y fideo: Hanes yr Eisteddfod Genedlaethol - o 1176 hyd heddiw! (bron i 1 munud 30 eiliad o hyd). Yna, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pryd a ble oedd yr Eisteddfod gyntaf y gwyddys amdani? Sut fath o gystadlaethau a gynhaliwyd?
- Pa bryd y bu gostyngiad sydyn yng nghynulliadau'r Eisteddfod? Pam?
- Pa bryd y bu adfywiad yng nghynulliadau'r Eisteddfod? Beth ddigwyddodd? Pam?
- Pa fedalau a gwobrau a roddwyd yn Eisteddfod Corwen?
- Pryd a ble y gwnaed yr Eisteddfod Genedlaethol yn ddigwyddiad ffurfiol?

## Sgrîn 6

Dywedwch wrth y dysgwyr fod tref Corwen wedi chwarae rhan bwysig yn hanes yr Eisteddfod Genedlaethol.

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y wybodaeth o Amgueddfa Cymru: 1789 ac Eisteddfodau'r Gwyneddigion. Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl bod Eisteddfod 1789 yng Nghorwen yn un ddadleuol?
- Beth ddigwyddodd yng Nghorwen? Pam?
- Pa fedalau a gwobrau a roddwyd yn Eisteddfod Corwen?

## Sgrîn 7

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Eisteddfod Heddwch Corwen ym 1919 yn ddathliad o'r ffaith mai dyma'r Eisteddfod gyntaf ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf.

Ar y sgrîn hon, darperir gwybodaeth ynghylch y dathlu yn 2019 bod 100 mlynedd wedi mynd heibio ers Eisteddfod Corwen 1919.

Dangoswch y fideo: Eisteddfod Heddwch Corwen (tua 3 munud a 30 eiliad o hyd). Yna, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ddigwyddodd yn y clip fideo?
- Beth oedd yn ddiddorol i chi? Pam?
- Beth wnaeth y plant yn y clip fideo? Pam?

## Sgrîn 8

Dangoswch y dyfyniad canlynol i'r dysgwyr: 'Y dyddiau hyn, mewn llawer o bentrefi, ac yn y rhan fwyaf o drefi Cymru, mae plant yn chwarae ac yn darllen yn Saesneg. Maen nhw'n anghofio mai Cymry ydyn nhw.'

Eglurwch nad geiriau diweddar mo'r rhain, ond y frawddeg enwocaf mewn llythyr a ysgrifennwyd yn 1922 yn galw am greu Urdd Gobaith Cymru.

Ym 1929, cynhaliodd Urdd Gobaith Cymru ei Eisteddfod Genedlaethol gyntaf ym Mhafiliwn Corwen.

Cyrchwch yr erthyglau hyn i ddarllen mwy am hanes yr Urdd:

Ein Hanes - Urdd

The history of Urdd Gobaith Cymru and how it began (Saesneg yn unig).

## Sgrîn 9

Ar y sgrîn hon, darperir data ynghylch nifer y bobl yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg. Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar ddata'r cyfrifiad a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl bod Syr Ifan ab Owen Edwards yn meddwl bod y Gymraeg mewn argyfwng?
- Pam ydych chi'n meddwl y gallai'r llythyr fod wedi'i ysgrifennu ym 1922?
- Pa effaith gafodd y ddau ryfel byd ar nifer y siaradwyr Cymraeg, yn eich barn chi? Pam y gallai hyn fod wedi digwydd?
- Pa gasgliadau allwch chi eu tynnu o'r data hwn? Sut y daethoch chi i'r casgliadau hyn? Pa dystiolaeth sydd yna?

## Sgrîn 10

Ar y sgrîn hon, rhoddir gwybodaeth am gyfrifiad 2021 a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, sef 'Cymraeg 2050'. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y wybodaeth a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl bod nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng?
- Pa mor realistig ydych chi'n meddwl yw targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2050? Pam?
- Beth allent ei wneud i geisio cyrraedd y targedau hyn?
- Pa un o'r pethau hyn allai fod fwyaf effeithiol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 11

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw am ddylunio a chynnal arolwg i ddarganfod mwy am siarad Cymraeg yn eu hysgol ac yn yr ardal leol. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol cyn iddynt ddechrau ar eu harolwg.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa wybodaeth benodol ydych chi'n ceisio'i chasglu?
- Pwy yw cynulleidfa darged yr arolwg hwn?
- Pa fformat fydd i'r arolwg (e.e. ar-lein, papur, llafar)? Pam?
- Sut bydd yr arolwg yn cael ei ddosbarthu?
- Pa offer neu lwyfannau fydd yn cael eu defnyddio i greu a dosbarthu'r arolwg? Pam?
- Pa fath o gwestiynau fydd fwyaf effeithiol (e.e. amlddewis, penagored, graddfa Likert)? Pam?

Yna, dylai'r dysgwyr ddrafftio eu cwestiynau.

### Sgrîn 12

Gwahoddwch y dysgwyr i ddatblygu eu harolwg a'i gynnal gyda:

- plant ac oedolion yn yr ysgol
- ffrindiau, teulu a chymdogion yn yr ardal yr ydych yn byw ynddi.

### Sgrîn 13

Gofynnwch i'r dysgwyr ddadansoddi canlyniadau eu harolwg a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut allech chi ddangos eich data a'ch canfyddiadau? Pa un yw'r ffordd orau? Pam?
- Pa batrymau neu dueddiadau allwch chi eu gweld yn y data?
- Sut allech chi esbonio eich data a'ch canfyddiadau? Beth yw eich casgliadau? Pam?
- Pobl ym mha grŵp oedran sy'n siarad y mwyaf o Gymraeg? Pobl ym mha grŵp oedran sy'n siarad y lleiaf o Gymraeg? Pam ydych chi'n meddwl mae hyn?
- Sut allech chi annog mwy o bobl i siarad Cymraeg yn yr ysgol ac yn eich ardal leol?
- Pa strategaethau allech chi eu defnyddio? Pam?
- Pa strategaeth fyddai fwyaf tebygol o lwyddo? Sut ydych chi'n gwybod?

Gallai dysgwyr greu siartiau bar, siartiau cylch, histogramau a diagramau gwasgariad neu ddefnyddio meddalwedd a fydd yn gwneud hynny ar eu cyfer.

TASG 2

## POBL YSBRYDOLEDIG

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod am edrych ar y mathau o sgiliau y mae pobl yn eu harddangos yn yr ardal leol, gan gynnwys sgiliau iaith a mathemateg, yn y dasg hon. Byddant yn dyfeisio gêm fathemateg gan ddefnyddio ysbrydoliaeth o'r awyr agored.

### Sgrîn 3

Dangoswch y fideo: [Mae Addysg yng Nghymru yn newid](#) (bron i 2 funud o hyd). Yna, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa sgiliau welsoch chi yn y fideo? Sut ydych chi'n gwybod bod y rhain yn sgiliau?
- Pa sgiliau na welsoch chi? Sut ydych chi'n gwybod mai sgiliau ydyn nhw?

## Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y dyfyniad gan Robert Greene: "When it comes to mastering a skill, time is the magic ingredient." Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- A ydych yn cytuno â'r datganiad hwn? Pam?
- Beth ydych chi'n meddwl yw'r 'elfennau hud' i feistroli sgil? Pam ydych chi'n meddwl bod y pethau hyn yn bwysig?

## Sgrîn 5

Dywedwch wrth y dysgwyr y byddant yn mynd ar daith gerdded 'adnabod sgiliau' yn yr ardal o amgylch yr ysgol. Eglurwch y byddant yn chwilio am bobl sy'n arddangos sgil ac yn gwneud nodyn o'r sgiliau a welir.

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol cyn iddynt gychwyn ar eu taith sgiliau.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa sgiliau ydych chi'n disgwyl eu gweld? Pam?
- Pwy fydd yn arddangos y sgiliau hyn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa sgiliau ydych chi'n annhebygol o'u gweld? Sut ydych chi'n gwybod?

## Sgrîn 6

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i chwilio am sgiliau sy'n cael eu harddangos gan bobl, gan wneud nodiadau.

## Sgrîn 7

Ar ôl y daith gerdded, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa sgiliau welsoch chi? Sut ydych chi'n gwybod bod y rhain yn sgiliau?
- Beth wnaeth eich synnu? Pam?
- Pa sgiliau wnaethoch chi ddim eu gweld? Pam ydych chi'n meddwl roedd hynny?

## Sgrîn 8

Eglurwch wrth y dysgwyr fod pawb yn dda am wneud rhywbeth a bod gan bawb o leiaf un peth y maen nhw bob amser yn ei chael hi'n anodd ei wneud. Yna, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n dda am ei wneud? Sut ydych chi'n gwybod? Pam ydych chi'n dda am ei wneud?
- Beth ydych chi'n ei chael hi'n anodd ei wneud? Pam?
- Pwy yn eich dosbarth sy'n dda am ganu, darllen, dawnsio, ysgrifennu, cymryd rhan mewn chwaraeon, gwneud mathemateg? Sut ydych chi'n gwybod? Beth sy'n eu gwneud nhw'n dda am wneud hyn?
- Beth yw'r pethau anoddaf i'w dysgu yn yr ysgol, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny? Beth sy'n gwneud y pethau hyn yn anodd eu dysgu?

## Sgrîn 9

Eglurwch wrth y dysgwyr fod mathemateg yn aml yn cael ei weld fel pwnc sy'n anodd ei ddysgu a'i fod ar gyfer dysgwyr academaidd yn unig. Yna, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor dda ydych chi am wneud mathemateg? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth sy'n anodd i chi am fathemateg? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pwy yw'r gorau mewn mathemateg yn eich dosbarth? Sut ydych chi'n gwybod?
- Ydych chi'n meddwl y gall pawb fod yn dda am wneud mathemateg? Pam?
- Pam mae rhai pobl yn cael mathemateg yn anodd? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 10

Gwahoddwch y dysgwyr i ddarllen yr erthyglau ymchwil hyn am gredoau ac agweddau at ddysgu mathemateg.

Learning Math: Are Boys Better Than Girls? (Saesneg yn unig)

Research finds 60% of girls believe they can't do maths & science (Saesneg yn unig)

Girls 'failed by discrimination' and stereotyping in maths class: UNICEF (Saesneg yn unig)

To overcome fear of maths, let's confront the myths (Saesneg yn unig)

Yna, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw prif ganfyddiadau'r ymchwil? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut mae'r ymchwil hwn yn effeithio ar eich ffordd o feddwl am ddysgu mathemateg? Pam?
- Beth yw'r ffactorau sy'n chwarae rhan mewn pa mor dda yr ydym yn dysgu gwneud mathemateg? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 11

Dywedwch wrth y dysgwyr bod Carol Vorderman yn ddarlledwraig o Gymru, yn berson adnabyddus ar y cyfryngau ac yn awdur, a'i bod hi wedi cael ei magu ym Mhrestatyn. Gofynnwch i'r darllenwyr ddarllen am ei chyflawniadau.

## Sgrîn 12

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Sefydliad NADA yn sefydliad hawliau dynol sy'n gofrestredig yn y DU, a'i fod yn ymroddedig i hyrwyddo ac amddiffyn hawliau merched a menywod ifanc.

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen sut mae NADA'n disgrifio Carol Vorderman ar eu gwefan trwy ddilyn y ddolen hon: Carol Vorderman: A Trailblazer in Mathematics and Media - Nada Foundation (Saesneg yn unig). Yna, dylai dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa fath o arddull ysgrifennu yw hwn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth ydych chi'n ei hoffi a beth ydych chi ddim yn ei hoffi amdano? Pam?
- Sut ydych chi'n gwybod am bwy mae'n sôn?
- Pwy sy'n eich ysbrydoli chi? Pam?

Gwahoddwch y dysgwyr i ddisgrifio arddull tebyg i ysgrifennu disgrifiad o'r person sy'n eu hysbrydoli. Gallent rannu eu gwaith ysgrifennu gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 13

Eglurwch wrth y dysgwyr mai Carol Vorderman oedd cyd-gyflwynydd rhaglen deledu ar Channel 4 o'r enw Countdown. Goruchwyliodd gêm rifau, lle gallai cystadleuwyr ddefnyddio 6 rhif a'r pedwar gweithrediad mathemategol sylfaenol (plws, minws, lluosi, rhannu) i greu rhif a ddewiswyd ar hap. Fodd bynnag, roedd yn rhaid iddynt gwblhau'r dasg o fewn 30 eiliad.

Ceisiwch weithio allan y rhain, gan ddefnyddio...
100, 5, 4, 9, 7, 1 i wneud 568
25, 50, 1, 9, 1, 6 i wneud 498

Un ffordd o'u gweithio allan:

**568**
5 x 100
9 x 7 = 63
5 or 4 + 1 = 5 Yna, adiwch nhw i gyd at ei gilydd.

**498**
25 + 50 = 75
75 - 1 = 74
74 + 9 = 83
83 × 6 = 498

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut ydych chi am wneud hyn? Pam?
- Pa strategaethau allech chi eu defnyddio? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut wnaethoch chi ddatrys y broblem?
- Pa mor hir gymeroch chi? Pam?

## Sgrîn 14

Gwahoddwch y dysgwyr i roi cynnig ar fersiwn digidol o'r gêm rifau, ar y sgrîn.

Gallwch hefyd ddefnyddio fersiynau ar-lein am ddim yn:

Countdown - NRICH (Saesneg yn unig)

Play Countdown Numbers Game Online - Free and Always Solvable (Saesneg yn unig)

## Sgrîn 15

Eglurwch wrth y dysgwyr y gall gemau mathemateg chwarae rhan bwysig wrth helpu pobl i wella eu sgiliau mathemateg.

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am ddefnyddio tir yr ysgol fel ysbrydoliaeth i ddatblygu gêm fathemateg ar gyfer dysgwyr iau. Byddant yn mynd allan i'r awyr agored i gymryd ffotograffau o bethau y gellid eu defnyddio ar gyfer eu gêm. Yna, pan y byddant yn ôl yn yr ysgol, byddan nhw'n defnyddio'r delweddau i ddatblygu eu gêm. Yna, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth sy'n gwneud gêm fathemateg dda? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa sgiliau mathemateg sydd gan ddysgwyr iau ac sydd angen eu hymarfer? Sut ydych chi'n gwybod? Sut allech chi ddarganfod?
- Pa fath o bethau allech chi gymryd ffotograffau ohonyn nhw? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 16

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i gymryd ffotograffau o bethau y gellid eu defnyddio i ddatblygu gêm fathemateg.

## Sgrîn 17

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y ffotograffau a phenderfynu beth y gellid ei ddefnyddio i ddatblygu gêm fathemateg ar gyfer dysgwyr iau. Yna, gallant drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa siapiau allech chi eu defnyddio? Sut?
- Beth allai'r dysgwyr ei gyfrif?
- Pa gyfrifiadau allech chi ofyn iddynt eu gwneud? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa bethau y gallent eu mesur? Sut? Pa offer ddylent eu defnyddio?
- Pa ddata y gallent ei gasglu a'i gofnodi? Sut gallent ddefnyddio'r data hwn?
- Sut allech chi ddefnyddio cyfeiriad a safle yn eich gêm? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 18

Gwahoddwch y dysgwyr i gynhyrchu eu gêm a gofyn i ddysgwyr iau roi cynnig arni, gan ofyn iddyn nhw roi adborth ar y canlynol:

- dau beth roedden nhw'n meddwl oedd yn dda yn eich gêm
- un peth yr hoffent ei newid er mwyn gwella'r gêm.

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r adborth i wella eu gêm.

## Sgrîn 19

Gwahoddwch y dysgwyr i ddechrau ar waelod y triongl a meddwl am y ffyrdd y gwnaethon nhw weithio. Yna, dylent ystyried y strategaethau a ddefnyddiwyd ganddynt wrth gynhyrchu eu gêm.